



Department for
Energy Security
& Net Zero

Ymgynghoriad | Cynllunio ar gyfer Seilwaith Ynni Newydd

Datganiadau Polisi Cenedlaethol drafft
diwygiedig ar gyfer seilwaith ynni

Dyddiad Cau: 23 Mehefin 2023



© Hawlfraint y Goron 2023

Mae'r cyhoeddiad hwn wedi'i drwyddedu o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored v3.0 ac eithrio lle nodir yn wahanol. I weld y drwydded hon, ewch i nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3 neu ysgrifennwch at yr Information Policy Team, The National Archives, Kew, London TW9 4DU, neu anfonwch neges e-bost at: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk.

Lle rydyn ni wedi nodi unrhyw wybodaeth sydd o dan hawlfraint trydydd parti, bydd angen ichi sicrhau caniatâd deiliaid yr hawlfraint o dan sylw.

Dylai unrhyw ymholiadau ynghylch y cyhoeddiad hwn gael eu hanfon aton ni yn: energyNPS@beis.gov.uk

Cynnwys

Gwybodaeth gyffredinol _____	4
Rhagymadrodd _____	7
Y Newidiadau Polisi Allweddol _____	8
Y Camau Nesaf _____	16
Cwestiynau ymgynghori _____	17

Gwybodaeth gyffredinol

Pam rydyn ni'n ymgynghori

Cafodd y gyfres bresennol o Ddatganiadau Polisi Cenedlaethol (NPSs) ynni eu dynodi gan yr Adran Ynni a Newid Hinsawdd yn 2011.

Ym mis Rhagfyr 2020 lansiodd y llywodraeth adolygiad o'r NPSs i sicrhau eu bod yn adlewyrchu blaenoriaethau ynni'r llywodraeth fel y'u nodir yn y Cynllun Deng Pwynt a'r Papur Gwyn Ynni. Fel rhan o'r adolygiad, cafodd ymgynghoriad ei lansio ar yr NPSs ynni drafft diwygiedig ym mis Medi 2021.

Ers hynny mae'r llywodraeth wedi cyhoeddi dwy ddogfen arall sy'n nodi'r polisi perthnasol. Ym mis Hydref 2021 cyhoeddwyd y *Net Zero Strategy: Build Back Greener*¹ gan nodi'n cynllun ar gyfer lleihau'r ddibyniaeth ar danwyddau ffosil a gwneud y newid i ynni carbon isel, yn gyson â'n hymrwymadau sero net. Ym mis Ebrill 2022, cyhoeddodd y llywodraeth Strategaeth Diogelwch Ynni Prydain (BESS), sy'n nodi sawl ymrwymiad yn ymwneud ag ynni, diwygio cynllunio a'r NPSs ynni.²

Mae rhai diweddariadau o sylwedd wedi'u gwneud i'r NPSs ynni drafft yn sgil y BESS ac mae angen ymgynghori arnynt. Mae'r ymgynghoriad hwn wedi'i dargedu ar y newidiadau polisi hynny sydd o sylwedd.

Manylion yr ymgynghoriad

Wedi'i gyhoeddi: 30 Mawrth 2023

Ymatebwch erbyn: 23 Mehefin 2023

Ymholiadau i: energyNPS@beis.gov.uk (peidiwch ag anfon ymatebion i'r ymgynghoriad i'r cyfeiriad hwn: gweler isod y manylion ar ymateb drwy Citizen Space)

Cyfeirnod yr ymgynghoriad: Cynllunio ar gyfer Seilwaith Ynni Newydd | Datganiadau Polisi Cenedlaethol drafft ar gyfer seilwaith ynni

Cynulleidfaoedd: Hoffai'r llywodraeth glywed gan aelodau'r cyhoedd, diwydiant, sefydliadau anllywodraethol ac unrhyw sefydliad neu gorff cyhoeddus arall.

Rhychwant tiriogaethol: Mae'r Datganiadau Polisi Cenedlaethol ynni a gyflwynir yn yr ymgynghoriad hwn yn cael effaith ar draws Cymru, Lloegr, dyfroedd tiriogaethol cyfagos a'r

¹ <https://www.gov.uk/government/publications/net-zero-strategy#full-publication-update-history>

² <https://www.gov.uk/government/publications/british-energy-security-strategy/british-energy-security-strategy>

Parth Ynni Adnewyddadwy ar y môr (ac eithrio unrhyw ran y mae gan Weinidogion yr Alban swyddogaethau mewn perthynas â hi).

Er bod y Datganiadau Polisi Cenedlaethol ynni yn cael effaith uniongyrchol yn yr Alban mewn un ystyr yn unig (mewn perthynas â phiblinellau traws gwlad rhwng yr Alban a Lloegr neu Gymru) mae'r polisi ynni yn gyffredinol yn fater sydd wedi'i gadw i Weinidogion y Deyrnas Unedig ac felly gall y dogfennau fod yn ystyriaeth berthnasol mewn penderfyniadau cynllunio yn yr Alban.

Yng Ngogledd Iwerddon, mae caniatâd cynllunio ar gyfer pob prosiect seilwaith o arwyddocâd cenedlaethol, yn ogystal â'r rhan fwyaf o'r polisi ynni, wedi'u datganoli i Weithrediaeth Gogledd Iwerddon.

Mae rhychwant tiriogaethol pob Datganiad Polisi Cenedlaethol Ynni wedi'i nodi yn Rhan 1 o bob dogfen.

Cyfrinachedd a diogelu data

Gall gwybodaeth a roddir mewn ymateb i'r ymgynghoriad hwn, gan gynnwys gwybodaeth bersonol, gael ei chyhoeddi neu ei datgelu yn unol â deddfwriaeth y Deyrnas Unedig (Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000, Deddf Diogelu Data 2018 a Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004).

Os ydych yn dymuno i'r wybodaeth rydych chi'n ei rhoi gael ei thrin yn gyfrinachol, dywedwch wrthon ni ond sylwch na allwn ni warantu bod modd cadw cyfrinachedd o dan bob amgylchiad. Fyddwn ni ddim yn edrych ar nacâd cyfrinachedd a gynhyrchir gan eich system TG fel cais am gyfrinachedd.

Byddwn yn prosesu'ch data personol yn unol â'r holl ddeddfau diogelu data perthnasol. Gweler ein [polisi preifatrwydd](#).

Byddwn yn crynhoi'r holl ymatebion ac yn cyhoeddi'r crynodeb hwn ar [GOV.UK](#). Bydd y crynodeb yn cynnwys rhestr o enwau sefydliadau a ymatebodd, ond nid enwau personol, cyfeiriadau neu fanylion cyswllt eraill pobl.

Sut i ymateb

Rydym yn gwahodd ymatebion i'r Ymgynghoriad hwn drwy'r platfform e-ymgynghori ar-lein, Citizen Space.

Yn yr ymgynghoriad hwn, hoffai'r llywodraeth glywed gan aelodau'r cyhoedd, diwydiant, sefydliadau anllywodraethol ac unrhyw sefydliad neu gorff cyhoeddus arall. Wrth ymateb, dywedwch a ydych yn ymateb fel unigolyn ynteu'n cynrychioli barn sefydliad. Os ydych yn

ymateb ar ran sefydliad, gwnewch yn glir pwy mae'r sefydliad yn eu cynrychioli a, lle bo'n berthnasol, sut y gwnaethoch chi gasglu barn yr aelodau.

Bydd eich ymateb yn fwyaf defnyddiol o'i lunio mewn ymateb uniongyrchol i'r cwestiynau a ofynnir, er bod croeso i sylwadau a thystiolaeth bellach hefyd. Wrth bwysu a mesur ymatebion i'r ymgynghoriad hwn, bydd y Llywodraeth yn rhoi mwy o bwyslais ar ymatebion sy'n seiliedig ar ddadleuon a thystiolaeth, yn hytrach na mynegiant syml o gefnogaeth neu wrthwynebiad.

Mae ymgynghoriadau'n ennyn lefel uchel o ddiddordeb ar draws llawer sector. Mae defnyddio'r gwasanaeth ar-lein yn helpu'n dadansoddiad o'r ymatebion yn fawr, gan ganiatáu ystyriaeth fwy effeithlon ac effeithiol o'r materion a godir. Gan hynny, rydym yn annog ymatebion drwy Citizen Space yn gryf. **Cysylltwch â ni os ydych yn bwriadu ymateb dwy ddefnyddio dull arall.**

Ymatebwch ar-lein yn: <https://beisgovuk.citizenspace.com/energy-strategy-networks-markets/national-policy-statements>

Rydym yn cynghori na ddylech chi anfon ymatebion drwy'r post i'r adran ar hyn o bryd, gan ei bod yn bosibl na fydd modd inni gael mynediad atyn nhw.

Sicrhau ansawdd

Mae'r ymgynghoriad hwn wedi'i gynnal yn unol ag [egwyddorion ymgynghori](#) y llywodraeth.

Os oes gennych unrhyw gwynion ynglŷn â'r ffordd y mae'r ymgynghoriad hwn wedi'i gynnal, anfonwch neges ebost at: beis.bru@beis.gov.uk.

Rhagymadrodd

Mae'r Datganiadau Polisi Cenedlaethol (NPSs) ynni wedi'u dynodi o dan Ddeddf Cynllunio 2008 i roi arweiniad i'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau ar gymhwyso polisi'r llywodraeth wrth benderfynu ar geisiadau am ddatblygiadau mewn perthynas â Phrosiectau Seilwaith o Arwyddocâd Cenedlaethol (NSIPs). Eu swyddogaeth yw datgan yn glir angen sefydledig am y seilwaith dan sylw a sut mae'r polisi presennol yn berthnasol i ganiatâd datblygu, gan dynnu trafodaeth ar rinweddau polisi'r llywodraeth o'r broses archwilio fel bod penderfyniadau'n gallu cael eu gwneud ar sail ystyriaethau cynllunio yn unig.

Yn y Papur Gwyn Ynni, *Powering our Net Zero Future*³ a gyhoeddwyd ym mis Rhagfyr 2020, ymrwymodd y llywodraeth i gwblhau adolygiad o'r NPSs ynni presennol i sicrhau eu bod yn adlewyrchu'r polisi ynni presennol ac yn caniatáu fframwaith polisi cynllunio sy'n gallu darparu buddsoddiad yn y seilwaith y mae ei angen ar gyfer pontio i sero net.

Ers y papur gwyn, mae'r llywodraeth wedi cyhoeddi dwy ddogfen arall sy'n amlinellu'r polisi perthnasol. Ym mis Hydref 2021 cyhoeddwyd y *Net Zero Strategy: Build Back Greener*⁴ gan nodi'n cynllun ar gyfer lleihau'r ddibyniaeth ar danwyddau ffosil a gwneud y newid i ynni carbon isel, yn gyson â'n hymrwymiadau sero net. Ym mis Ebrill 2022 cyhoeddwyd Strategaeth Diogelwch Ynni Prydain⁵ (BESS), gan gyflymu uchelgais y llywodraeth o helpu i gyflwyno technolegau carbon isel ac adnewyddadwy megis ynni gwynt ar y môr, niwclear a hydrogen, yn unol â'n hamcanion er mwyn sicrhau bod ein cyflenwad ynni bob amser yn parhau'n ddiogel, yn ddibynadwy, yn fforddiadwy ac yn gyson â'n targed sero net.

Mae'r BESS hefyd yn nodi rhai ymrwymiadau mawr ynglŷn â diwygio cynllunio gan gynnwys dau sy'n ymwneud yn benodol â'r NPSs ynni:

- cryfhau'r NPSs Adnewyddadwy i adlewyrchu pwysigrwydd diogelwch ynni a sero net
- diweddarau'r Datganiadau Polisi Cenedlaethol ynni i gydnabod Dyluniad Rhwydwaith Holistig (HND) a'r Cynllun Rhwydwaith Strategol Canolog (CSNP) yn y system gynllunio, gan gynyddu sicrwydd i'r arolygiaeth gynllunio, datblygwyr a rhanddeiliaid eraill, a chyflymu'r ddarpariaeth

Mae sawl newid o bwys wedi'u gwneud yn yr NPSs ynni drafft yn sgil y BESS ac er mwyn adlewyrchu'r polisi newydd, rydym bellach yn ymgynghori ar y rhain cyn y gallwn symud ymlaen i ddynodi cyfres ddiwygiedig o NPSs ynni.

³ <https://www.gov.uk/government/publications/energy-white-paper-powering-our-net-zero-future>

⁴ <https://www.gov.uk/government/publications/net-zero-strategy#full-publication-update-history>

⁵ <https://www.gov.uk/government/publications/british-energy-security-strategy/british-energy-security-strategy>

Beth yw Datganiadau Polisi Cenedlaethol ynni?

Mae'r NPSs ynni yn gosod y polisi ynni cenedlaethol ac yn darparu'r sylfeini ar gyfer gwneud penderfyniadau ynghylch Prosiectau Seilwaith o Arwyddocâd Cenedlaethol (NSIPs) yn amodol ar gais am Gydsyniad Datblygu o dan adran 104 o Ddeddf Cynllunio 2008.

Mae EN-1 yn nodi'r achos cyffredinol ynglŷn ag angen ac egwyddorion asesu cyffredinol, ac mae EN-2 i EN-5 yn nodi egwyddorion asesu technoleg-benodol.

Ynghyd â'r NPS ynni, mae yna ddwy ddogfen gysylltiedig sy'n ystyried yr effeithiau socio-economaidd ac amgylcheddol posibl y byddai seilwaith yn eu creu ar yr ardal leol, ac ar Gymru a'r Alban, sef yr Arfarniad o Gynaliadwyedd (AoS) a'r Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd (HRA).

Adolygu'r NPS ynni presennol

Lansiwyd ymgynghoriad cyhoeddus ar yr NPS ynni drafft ym mis Medi 2021, gan gau ym mis Tachwedd 2021, a bu'r dogfennau'n destun gwaith craffu seneddol rhwng 22 Medi a 28 Chwefror 2022 gan gynnwys Ymchwiliad gan Bwyllgor Dethol BEIS a gyhoeddodd ei argymhellion ar 25 Chwefror 2022.

Cafwyd 175 o ymatebion i'r ymgynghoriad gan gynnwys ymatebion gan aelodau o'r cyhoedd, diwydiant, sefydliadau anllywodraethol a chyrrff cyhoeddus.

Ochr yn ochr â'r ddogfen ymgynghori hon, mae'r llywodraeth wedi cyhoeddi NPS ynni drafft diwygiedig ym mis Mawrth 2023 ynghyd ag ymateb i'r ymgynghoriad cyntaf, ac ymateb i Ymchwiliad Pwyllgor Dethol BEIS.

Trefniadau trosiannol

Wrth i'r adolygiad gael ei gynnal, mae'r gyfres bresennol o NPSs ynni (neu o ran datblygu niwclear mae'r sefyllfa a nodir yn Natganiad Ysgrifenedig y Gweinidog ar 7 Rhagfyr 2017) yn dal yn bolisi perthnasol gan y llywodraeth ac mae EN-1 i EN-5 yn cael effaith at ddibenion Deddf 2008.

Er mwyn i unrhyw gais gael ei dderbyn i'w archwilio cyn dynodi'r NPSs ynni diwygiedig, mae'r Ysgrifennydd Gwladol wedi penderfynu y dylai'r gyfres wreiddiol o NPSs ynni gael effaith. Gan hynny, bydd yr NPSs ynni diwygiedig yn cael effaith mewn perthynas â'r ceisiadau hynny am ganiatâd datblygu a dderbynnir i'w harchwilio ar ôl dynodi'r NPSs ynni diwygiedig yn unig. Er hynny, mae unrhyw NPS ynni drafft sy'n dod i'r amlwg (neu'r rhai sydd wedi'u dynodi ond heb gael effaith) o bosibl yn gallu bod yn ystyriaethau pwysig a pherthnasol yn y broses o wneud penderfyniadau. Mater i'r Ysgrifennydd Gwladol perthnasol ei ystyried, a hynny o fewn fframwaith y Ddeddf Cynllunio ac o ran amgylchiadau penodol pob cais am orchymyn cydsyniad datblygu yw i ba raddau y maen nhw'n berthnasol.

Y Newidiadau Polisi Allweddol

Blaenoriaeth genedlaethol hanfodol ynni gwynt ar y môr

Cyhoeddodd y Papur Gwyn Ynni, a gyhoeddwyd ym mis Rhagfyr 2020, darged y llywodraeth o ddarparu 40GW o ynni gwynt ar y môr erbyn 2030, gan gynnwys 1GW o ynni gwynt arnofiol. Cynyddwyd hyn wedyn yn y BESS, a gyhoeddwyd ym mis Ebrill 2022, i uchelgais o hyd at 50GW o ynni gwynt ar y môr erbyn 2030, gan gynnwys hyd at 5GW o ynni gwynt arnofiol.

Yn ystod yr 11 mlynedd diwethaf, ers cyhoeddi fersiwn blaenorol yr NPS ynni, mae cynhyrchu trydan gwynt ar y môr wedi symud o dechnoleg sy'n dod i'r amlwg i dechnoleg sefydledig, sy'n parhau i dyfu'n gyflym i helpu i ategu agenda ynni gwyrdd y llywodraeth. Mae'r llywodraeth wedi dod i'r casgliad bod angen brys a hanfodol i ddarparu seilwaith ynni gwynt newydd ar y môr sy'n arwyddocaol yn genedlaethol ac yn gysylltiedig â seilwaith rhwydwaith ac atgyfnerthiadau ar y tir ac ar y môr i gyflawni'n hamcanion ynni.

Mae rhagdybiaeth bolisi newydd o'r enw blaenoriaeth genedlaethol hanfodol (CNP) ar gyfer ynni gwynt ar y môr, a seilwaith rhwydwaith ategol ar y tir ac ar y môr, ac atgyfnerthiadau cysylltiedig yn y rhwydwaith wedi'i gyflwyno yn yr EN-1, EN-3 ac EN-5 drafft.

Mae'r polisi newydd hwn yn golygu, yn amodol ar unrhyw ofynion cyfreithiol, y bydd yr angen dybryd am ynni gwynt ar y môr i gyflawni'n hamcanion ynni, ynghyd â'r buddion o ran diogelwch cenedlaethol, economaidd, masnachol a sero net, yn gyffredinol yn drech nag unrhyw effeithiau gweddilliol eraill nad oes modd rhoi sylw iddyn nhw trwy ddefnyddio'r hierarchaeth liniaru.

Mae'r polisi CNP llawn wedi'i nodi yn Adran 2.8.8 o'r EN-3 drafft.

Rydym hefyd wedi ychwanegu diffiniad o CNP yn yr eirfa:

"A policy set out at Section 2.8.8 of EN-3 which applies a policy presumption that, subject to any legal requirements, the urgent need for CNP Infrastructure to achieving our energy objectives, together with the national security, economic, commercial, and net zero benefits, will in general outweigh any other residual impacts not capable of being addressed by application of the mitigation hierarchy. CNP Infrastructure is defined as nationally significant new offshore wind development and supporting onshore and offshore network infrastructure and related network reinforcements."

Cwestiynau

1. Ydych chi'n cytuno â'r diffiniad o CNP yn yr eirfa?
2. Ydych chi'n cytuno â'r canllawiau newydd a ychwanegwyd at yr EN-1 drafft, yr EN-3 drafft a'r EN-5 drafft ar y CNP ar gyfer ynni gwynt ar y môr, yn ategu seilwaith

rhwydwaith ar y tir ac ar y môr, ac atgyfnerthiadau cysylltiedig yn y rhwydwaith? Yn benodol, ydych chi'n cytuno y bydd y polisi hwn

- a. yn ategu uchelgais y llywodraeth o gyflwyno hyd at 50GW o ynni gwynt ar y môr erbyn 2030, gan gynnwys hyd at 5GW o ynni gwynt arnofiol?
- b. yn ategu amcanion y llywodraeth o symleiddio'r broses o ganiatáu ynni gwynt ar y môr?

Pecyn Gwella Amgylcheddol Ynni Gwynt ar y Môr

Yn y BESS, rydym wedi cynyddu'n huchelgais o ddarparu hyd at 50GW o ynni gwynt ar y môr, gan gynnwys 5GW o ynni gwynt arnofiol ar y môr erbyn 2030. I gyflawni hyn, mae angen inni haneru amser y broses. Gan hynny mae'r Llywodraeth yn cyflwyno polisïau newydd i helpu i gyflymu'r broses o gyflwyno ynni gwynt ar y môr, gan ddiogelu a gwella'r amgylchedd morol yr un pryd. Mae'r rhain yn cynnwys Pecyn Gwella Amgylcheddol Ynni Gwynt ar y Môr (OWEIP) newydd,⁶ y cyfeirir ato yn yr NPS.⁷ Mae'r datblygiad hwn wedi arwain at ychwanegiadau allweddol i'r testun ynghylch ynni gwynt ar y môr yn yr EN-3 drafft.

Erbyn hyn mae is-adran newydd, o dan Adran 2.8.103 o'r EN-3 drafft, sy'n cyflwyno un o fesurau OWEIP, sef y Safonau Amgylcheddol Gwynt ar y Môr (a ddisgrifiwyd yn flaenorol fel Safonau Dylunio ar Sail Natur yn y BESS). Mae'r safonau hyn yn anelu at gyflymu'r cyflwyno tra'n gwella'r amgylchedd morol. Unwaith y bydd canllawiau terfynol wedi'u cyhoeddi gan Defra, bydd yr Ysgrifennydd Gwladol yn disgwyl i ymgeiswyr fod wedi cymhwyso'r canllawiau at eu cynigion.

Yn yr un modd, yng ngoleuni BESS, rydym wedi diweddarau Adran 2.8.282 o'r EN-3 drafft sy'n nodi canllawiau mewn perthynas â Mesurau Cydadfer. O dan yr OWEIP mae'r llywodraeth yn hwyluso'r gwaith o ystyried materion amgylcheddol yn gynharach yn y broses gynllunio, gan gynnwys defnyddio mesurau cydadfer strategol i fynd i'r afael ag effeithiau ar draws prosiectau ynni gwynt ar y môr, hybu cydweithio rhwng datblygwyr, a chyda'r llywodraeth, a lleihau oedi mewn prosiectau. Bydd hyn yn berthnasol i brosiectau sydd eisoes yn y system. Rydym wedi cynnwys testun newydd yn yr adran hon yn hybu cydweithio cynnar â Chyrff Cadwraeth Natur Statudol (SNCBs) a Defra yn y cyfnod cyn gwneud cais. Rydym hefyd yn cynghori y dylai'r ymgeiswyr ofyn barn yr SNCBs ac Ysgrifennydd Gwladol Defra ar addasrwydd, sicrwydd ac effeithiolrwydd eu cynlluniau cydadfer.

Cwestiynau

3. Ydych chi'n cytuno â'r testun newydd sydd wedi'i gynnwys yn Adran 2.8.103 o'r EN-3 drafft sy'n ymwneud â Safonau Amgylcheddol Gwynt ar y Môr?
4. Ydych chi'n cytuno ag ychwanegiadau a wnaed mewn perthynas â chyddadfer strategol a gofyn barn yr SNCBs ac Ysgrifennydd Gwladol Defra yn Adran 2.8.282 o'r EN-3 drafft sy'n ymwneud â'r Mesurau Cydadfer?

⁶ Cynhaliodd Defra Gyfle i Gynnig Sylwadau yn ddiweddar i gasglu barn ar y Pecyn Gwella Amgylcheddol Ynni Gwynt ar y Môr. Bydd hyn yn cael ei gyhoeddi maes o law

⁷ Mae Taflen Ffeithiau y Bil Ynni ar OWEIP yn nodi'n fanylach yr hyn y bydd y pecyn hwn o fesurau yn ei wneud yn ogystal â thestun newydd yr NPS: www.gov.uk/government/publications/energy-security-bill-factsheets/energy-security-bill-factsheet-offshore-wind-environmental-improvement-package

Hedfan sifil a milwrol a buddiannau amddiffyn

Yn yr EN-1 drafft yr ymgynghorwyd arno ym mis Medi 2021 roedd newidiadau cyfyngedig wedi'u gwneud i Adran 5.5 ynghylch Hedfan Sifil a Milwrol a Buddiannau Amddiffyn, a hynny am ei bod yn rhy gynnar i wneud diwygiadau, gan nad oedd y gwaith perthnasol a oedd yn cael ei wneud gan Gyd-dasglu y Diwydiant a'r Llywodraeth ar Liniaru Amddiffyn yr Awyr a Gwynt ar y Môr (y Cyd-dasglu) yn ddigon datblygedig eto i nodi'r diwygiadau gofynnol.

Ym mis Medi 2021, cyhoeddodd y Cyd-dasglu ei Strategaeth a'i Gynllun Gweithredu ar y Cyd. Rydym wedi defnyddio hwn, ochr yn ochr ag adborth gan y rhanddeiliaid yn ystod yr ymgynghoriad diwethaf, i wneud diwygiadau sylweddol i Adran 5.5, gan ei diweddarau i adlewyrchu statws datblygiadau ynni, gan gynnwys ynni gwynt ar y môr, a sut y dylai effeithiau ar hedfan sifil a milwrol, radar meteorolegol a mathau eraill o fuddiannau amddiffyn gael eu rheoli.

Mae'r drafft diwygiedig yn canolbwyntio ar bwysigrwydd cydweithio a chydfodolaeth rhwng rhanddeiliaid y diwydiant hedfan, meteoroleg, amddiffyn ac ynni, a ddylai ymdrechu i sicrhau sefyllfaoedd lle nad yw'r naill na'r llall yn cael ei beryglu'n ormodol.

Mae'r newidiadau allweddol yn y drafft yn cynnwys:

- Testun diwygiedig ar ddiogelu meysydd glanio
- Cyd-destun ychwanegol ar ystyriaethau y dylai ymgeiswyr a'r diwydiant eu hystyried wrth gynllunio datblygiadau newydd neu wrth fuddsoddi mewn seilwaith cyfathrebu, mordwyo a gwyliadwriaeth (CNS).
- Adran newydd ar radar meteorolegol
- Cyd-destun ychwanegol ar y mathau o effeithiau sy'n flaenoriaeth ar gyfer meysydd glanio, er enghraifft y risg y caiff adar eu taro, cynnwrf a achosir gan adeiladau, cynnwrf y bluen thermol
- Mesurau lliniaru diwygiedig
- Newid tŷn, gan gydnabod y newidiadau arwyddocaol sydd wedi digwydd yn y maes hwn sy'n esblygu'n gyflym, gan roi golwg fwy cytbwys rhwng anghenion y gwahanol rhanddeiliaid, sydd ar y cyfan yn adlewyrchu uchelgais y llywodraeth yn well.
- Cyfeiriadau at ddarnau allweddol o bolisi perthnasol y llywodraeth, gan gynnwys Sero Net a'r 6ed Gyllideb Garbon (CB6)
- Ystyriaethau dylunio ychwanegol i'r ymgeiswyr, er enghraifft lleihau effeithiau ar feysydd glanio a'r systemau gwyliadwriaeth presennol megis technolegau radar / tracio, dylunio goleuadau mewn modd sy'n sicrhau nad oes llacharedd a allai greu effaith neu ddallu peilotiaid a/neu reolaeth traffig awyr (ATC).
- Cynnwys pwyntiau perthnasol gan Gyd-dasglu y Diwydiant a'r Llywodraeth ar Liniaru Amddiffyn yr Awyr a Gwynt ar y Môr.

Cwestiwn

5. Ydych chi'n cytuno bod Adran 5.5 o'r EN-1 drafft sy'n ymwneud â Hedfan Sifil a Milwrol a Buddiannau Amddiffyn, yn rhoi golwg fwy cytbwys a chyfredol ar effeithiau ynni gwynt ar y môr ar radar, ac yn cyfleu anghenion gwahanol randdeiliaid yn gywir?

Yr angen am seilwaith rhwydwaith trydan newydd

Mae'r NPSs ynni drafft wedi'u diweddarau i wneud pwysigrwydd seilwaith rhwydwaith o ran cyflawni sero net a symud oddi wrth danwyddau ffosil yn fwy amlwg.

Yn y BESS, ymrwymodd y llywodraeth i gryfhau'r NPSs ynni ymhellach i gynnwys mwy o fanylion am rôl cynllunio strategol rhwydweithiau trydan, sy'n ystyried y rhwydwaith yn ei gyfanrwydd, yn hytrach na phrosiectau trawsyrru unigol yn unig. Roedd hyn yn cynnwys ymrwymiad i gyfeirio at yr achos anghenion dros seilwaith a nodwyd yn y Cynllun Rhwydwaith Holistig (HND) a'r gwaith ymlaen llaw i ystyried effeithiau amgylcheddol a chymunedol a gyflawnir yn yr HND.

Bydd yr HND a'r cynlluniau rhwydwaith strategol dilynol⁸ yn helpu i sicrhau bod modd cyflwyno mwy o gynhyrchu adnewyddadwy ar yr adeg gywir ac yn y manau cywir gan ystyried yr effeithiau cymunedol ac amgylcheddol posibl yn gynharach yn y broses gynllunio.

Yn y drafft diwygiedig o Adran 2.8 o'r EN-5, rydym wedi cydnabod rôl yr Adolygiad o'r Rhwydwaith Trawsyrru ar y Môr (OTNR) a arweinir gan y Llywodraeth a'r symudiad dan arweiniad y rheoleiddiwr annibynnol Ofgem tuag at ddull Cynllunio Rhwydwaith Strategol Canolog. Mae'r ddwy raglen yn sicrhau bod modd cynllunio'r rhwydwaith yn strategol ar y tir ac ar y môr a bydd cynnwys y ddwy yn helpu i roi mwy o eglurder i ddatblygwyr wrth ddatblygu'r achos anghenion ar gyfer eu prosiectau.

O ran prosiectau nad ydyn nhw'n dod o dan gynllunio rhwydwaith strategol, rydym wedi cyfeirio at ffrwd waith Cyfleoedd Cynnar OTNR sy'n galluogi datblygwyr ynni gwynt ar y môr i 'optio i mewn' i waith OTNR i helpu i'w cydlynu. Mae'r polisi'n cynnwys rhagdybiaeth y bydd trawsyrru ar y môr yn cael ei gydlynu ac na ddylid cynnig opsiynau rheiddiol oni bai bod gwaith asesu opsiynau yn dilyn pedwar maen prawf yn nodi nad yw ateb cydgysylltiedig yn ymarferol.

Cwestiwn

6. Ydych chi'n cytuno â'r canllawiau newydd a ychwanegwyd at Adran 2.8 o'r EN-5 drafft ynghylch cynnwys cynllunio strategol fel ystyriaeth i ategu achos anghenion dros seilwaith rhwydwaith trydan?
7. Mae'r EN-5 drafft yn cynnwys rhagdybiaeth gychwynnol gref o blaid llinellau uwchben ar gyfer datblygiadau rhwydwaith trydan y tu allan i dirweddau sydd wedi'u dynodi'n genedlaethol, sef rhywbeth yr ymgynghorwyd yn ei gylch yn 2021. Ydych chi'n cytuno?

⁸ Bydd y cynlluniau dilynol yn ymdrin â rowndiau prydlesu gwely'r môr sydd ar ddod yn y dyfodol ac yn cynrychioli camau cynyddrannol tuag at yr ateb integredig parhaus ar gyfer dylunio rhwydweithiau.

Sylwadau eraill

Mae'r llywodraeth yn croesawu barn ar unrhyw agwedd arall ar yr NPSs ynni drafft neu'r dogfennau cysylltiedig nad yw'r cwestiynau blaenorol yn ymdrin â nhw.

Wrth bwysu a mesur ymatebion i'r ymgynghoriad hwn, bydd y llywodraeth yn rhoi mwy o bwyslais ar ymatebion sy'n seiliedig ar ddadleuon a thystiolaeth, yn hytrach na mynegiant syml o gefnogaeth neu wrthwynebiad. Bydd y Llywodraeth hefyd yn ystyried ei hymateb blaenorol ar yr NPSs ynni drafft a gyhoeddwyd ochr yn ochr â'r ymgynghoriad hwn.

Cwestiwn

8. Oes gennych chi unrhyw sylwadau ar unrhyw agwedd ar yr NPSs ynni drafft neu eu dogfennau cysylltiedig nad ydynt wedi'u cynnwys yn y cwestiynau blaenorol?

Y Camau Nesaf

Daw'r ymgynghoriad hwn i ben ar 25 Mai 2023.

Bydd y Llywodraeth yn ystyried yr ymatebion a ddaw i law, cyn cyhoeddi ymateb ffurfiol ac NPSs ynni drafft diwygiedig yn ôl yr angen. Bydd y Llywodraeth wedyn yn symud ymlaen i osod y dogfennau yn y Senedd i'w cymeradwyo.

Ar ôl cael eu cymeradwyo'n ffurfiol (eu "dynodi"), yr NPSs ynni hyn wedyn fyddai'r brif ystyriaeth i'r Ysgrifennydd Gwladol ac i'r Arolygiaeth Gynllunio pan fydd yn gwneud penderfyniadau ar geisiadau am ganiatâd datblygu i brosiectau seilwaith ynni o arwyddocâd cenedlaethol.

Y cwestiynau ymgynghori

Mae'r ymgynghoriad hwn yn canolbwyntio ar y cwestiynau ymgynghori isod. Er hynny, mae'r ymatebwyr yn rhydd i gynnig sylwadau eraill, a bydd y llywodraeth yn ystyried y rhain lle bo'n briodol. Wrth bwysu a mesur ymatebion i'r ymgynghoriad hwn, bydd y llywodraeth yn rhoi mwy o bwyslais ar ymatebion sy'n seiliedig ar ddadleuon a thystiolaeth, yn hytrach na mynegiant syml o gefnogaeth neu wrthwynebiad.

Blaenoriaeth genedlaethol hanfodol ynni gwynt ar y môr

1. Ydych chi'n cytuno â'r diffiniad o CNP yn yr eirfa?
2. Ydych chi'n cytuno â'r canllawiau newydd a ychwanegwyd at yr EN-1 drafft, yr EN-3 drafft a'r EN-5 drafft ar y CNP ar gyfer ynni gwynt ar y môr, yn ategu seilwaith rhwydwaith ar y tir ac a y môr, ac atgyfnerthiadau cysylltiedig yn y rhwydwaith? Yn benodol, ydych chi'n cytuno y bydd y polisi hwn
 - a. yn ategu uchelgais y llywodraeth o gyflwyno hyd at 50GW o ynni gwynt ar y môr erbyn 2030, gan gynnwys hyd at 5GW o ynni gwynt arnofiol?
 - b. yn ategu amcanion y llywodraeth o symleiddio'r broses o ganiatáu ynni gwynt ar y môr?

Pecyn Gwella Amgylcheddol Ynni Gwynt ar y Môr

3. Ydych chi'n cytuno â'r testun newydd sydd wedi'i gynnwys yn Adran 2.8.103 o'r EN-3 drafft sy'n ymwneud â Safonau Amgylcheddol Gwynt ar y Môr?
4. Ydych chi'n cytuno ag ychwanegiadau a wnaed mewn perthynas â chydadfer strategol a gofyn barn yr SNCBs ac Ysgrifennydd Gwladol Defra yn Adran 2.8.282 o'r EN-3 drafft sy'n ymwneud â Mesurau Cydadfer?

Hedfan Sifil a Milwrol a Buddiannau Amddiffyn

5. Ydych chi'n cytuno bod Adran 5.5 o'r EN-1 drafft sy'n ymwneud a Hedfan Sifil a Milwrol a Buddiannau Amddiffyn, yn rhoi golwg fwy cytbwys a chyfredol ar effeithiau ynni gwynt ar y môr ar radar, ac yn cyfleu anghenion gwahanol randdeiliaid yn gywir?

Yr angen am seilwaith rhwydwaith trydan newydd

6. Ydych chi'n cytuno â'r canllawiau newydd a ychwanegwyd at Adran 2.8 o'r EN-5 drafft ynghylch cynnwys cynllunio strategol fel ystyriaeth i ategu achos anghenion dros seilwaith rhwydwaith trydan?
7. Mae'r EN-5 drafft yn cynnwys rhagdybiaeth gychwynnol gref o blaid llinellau uwchben ar gyfer datblygiadau rhwydwaith trydan y tu allan i dirweddau sydd wedi'u dynodi'n genedlaethol, sef rhywbeth yr ymgynghorwyd yn ei gylch yn 2021. Ydych chi'n cytuno?

Sylwadau eraill

8. Oes genych chi unrhyw sylwadau ar unrhyw agwedd ar yr NPSs ynni drafft neu eu dogfennau cysylltiedig nad ydynt wedi'u cynnwys yn y cwestiynau blaenorol?

Mae'r ymgynghoriad hwn ar gael o: www.gov.uk/beis

Os oes arnoch chi angen fersiwn o'r ddogfen hon mewn fformat mwy hygyrch, anfonwch neges ebost at enquiries@beis.gov.uk. Dywedwch pa fformat y mae arnoch ei angen. Bydd yn ein helpu os ydych chi'n dweud pa dechnoleg gynorthwyol rydych chi'n ei defnyddio.